# Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

**2021 dsc 4**

## RHAN 2 E+W

CWRICWLWM MEWN YSGOLION A GYNHELIR, YSGOLION MEITHRIN A GYNHELIR AC ADDYSG FEITHRIN A GYLLIDIR OND NAS CYNHELIR

## PENNOD 4 E+W

GWEITHREDU CWRICWLWM: EITHRIADAU

### 45 Apelau am eithriadau dros dro ar gyfer disgyblion unigol E+W

(1) Mae'r adran hon yn gymwys—

(a) pan fo pennaeth ysgol yn gwneud, yn amrywio neu'n dirymu penderfyniad sy'n ymwneud â disgybl o dan reoliadau a wneir o dan adran 42, neu

(b) pan fo disgybl, neu riant disgybl, yn gofyn i bennaeth ysgol wneud penderfyniad o dan y rheoliadau hynny mewn perthynas â'r disgybl, ond pan na fo penderfyniad wedi ei wneud.

(2) Caiff pob un o'r canlynol apelio i gorff llywodraethu'r ysgol—

(a) y disgybl;

(b) rhiant y disgybl.

(3) Nid yw is-adran (2)(a) yn gymwys os yw'r corff llywodraethu yn ystyried nad oes gan y disgybl o dan sylw y galluedd i ddeall yr hyn y mae'n ei olygu i arfer yr hawl a roddir gan yr adran hon.

(4) Os gwneir apêl o dan yr adran hon, caiff y corff llywodraethu—

(a) cyfarwyddo'r pennaeth, yn ysgrifenedig, i gymryd y camau gweithredu y mae'n ystyried eu bod yn briodol mewn cysylltiad â'r penderfyniad y cyfeirir ato yn is-adran (1)(a) neu'r cais y cyfeirir ato yn is-adran (1)(b), neu

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, Adran 45 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 23 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(b) hysbysu'r pennaeth, yn ysgrifenedig, na roddir unrhyw gyfarwyddyd o'r fath.

(5) Rhaid i'r corff llywodraethu roi hysbysiad ysgrifenedig o'i benderfyniad—

(a) i'r disgybl, a

(b) i riant y disgybl.

(6) Nid yw is-adran (5)(a) yn gymwys os yw'r corff llywodraethu yn ystyried nad oes gan y disgybl o dan sylw y galluedd i ddeall yr wybodaeth a roddid.

(7) Rhaid i'r pennaeth gydymffurfio â chyfarwyddyd a roddir o dan is-adran (4).

(8) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth bellach mewn cysylltiad ag apelau o dan yr adran hon.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 45 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 84(2)**

**I2** A. 45 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/652, ergl. 5(1)(2)(d), **Atod.**

**I3** A. 45 mewn grym ar 1.9.2023 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/652, **ergl. 6(1)**(2)(d)

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, Adran 45 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 23 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

- s. 45 coming into force by S.I. 2022/652 art. 7(e)
- s. 45 coming into force by S.I. 2022/652 art. 8(b)
- s. 45 coming into force by S.I. 2022/652 art. 9(b)